**Rhif: WG42926**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# **Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth**
## Crynodeb o'r ymatebion

Dyddiad cyhoeddi: 08 Mehefin 2021

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN 978-1-80195-487-7

## Cyflwyniad

1. Cytundeb gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau hanesyddol dynodedig yn yr hirdymor yw cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Caiff ei negodi rhwng perchennog yr ased/au, yr awdurdod neu awdurdodau caniatáu perthnasol ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb. Gall cytundeb partneriaeth dreftadaeth gynnwys caniatadau adeilad rhestredig a/neu heneb gofrestredig ar gyfer rhaglen waith y cytunwyd arni i'w chynnal yn ystod oes y cytundeb, a all bara cyhyd â 10 i 15 mlynedd.

2. Datblygwyd yr ymgynghoriad hwn fel rhan o raglen ehangach i wella'r modd y caiff amgylchedd hanesyddol Cymru ei ddiogelu a'i reoli. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ynglŷn â'r canlynol:

   - Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 drafft;
   - Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 drafft;
   - canllawiau drafft, Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yng Nghymru;
   - Rheoliadau Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth – Asesiad Effaith Rheoleiddiol
   - Rheoliadau Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth – Asesiad Effaith Integredig.

3. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 18 Ionawr 2021 a 12 Ebrill 2021.

4. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar we-dudalennau ymgynghori penodedig Llywodraeth Cymru (Cytundebau partneriaeth dreftadaeth: rheoliadau a chanllawiau | LLYW.CYMRU), lle gellid lawrlwytho'r dogfennau perthnasol. Roedd y ffurflen ymateb ar gael ar ffurf ffurflen ar-lein a hefyd ar ffurf dogfen Word y gellid ei lawrlwytho.

5. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i dynnu sylw at yr ymgynghoriad. Cyfeiriwyd ato ar wefan, ffrwd Twitter a thudalen Facebook Cadw. Soniwyd am gyhoeddi'r ymgynghoriad yn 'Niweddariad Amgylchedd Hanesyddol' Cadw, a ddosbarthwyd i fwy na 1100 o randdeiliaid ac aelodau cyfrannog o'r cyhoedd. Anfonwyd e-bost atgoffa at yr un derbynyddion. Hefyd, cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo trwy gyfrwng sianeli Llywodraeth Cymru.


## Yr ymatebion

6. Cafodd yr ymgynghoriad 22 ymateb o sylwedd. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad 1. Hepgorwyd y manylion yn achos yr ymatebwyr a ofynnodd am gael bod yn ddienw.

7. Anfonwyd dau ar bymtheg o ymatebion o Gymru. Er bod y gweddill yn dod o'r tu allan i Gymru neu o gyfeiriadau na chawsant eu datgelu, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adlewyrchu cysylltiad neu fudd uniongyrchol mewn adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yng Nghymru.

8. Pan gyflwynwyd ymatebion dyblyg ar gyfer gwahanol gwestiynau, ni chânt eu hatgynhyrchu ym mhob cwestiwn – yn hytrach, cânt eu hatgynhyrchu yn yr adran a ystyrir yn fwyaf priodol.

9. Mae'r ymatebion wedi'u categoreiddio yn Ffigur 1.




Ffigur 1. Yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad fesul categori

| | |
|---|---|
| **C1.** | Nod y canllawiau drafft, Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yng Nghymru, yw helpu perchnogion ac awdurdodau caniatáu i sefydlu a rheoli cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Mae'r prif ganllawiau ar sefydlu cytundeb yn adran 3. A oes digon o fanylion yma i gefnogi creu cytundeb partneriaeth dreftadaeth?<br><br>Os na, sut y gellid eu gwella? |

| Oes | Nac oes | Sylw yn unig | Dim ymateb | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 13 | 7 | 1 | 1 | **22** |
| 59% | 32% | 5% | 5% | **100%** |

**Dadansoddiad cryno**

10. Roedd mwyafrif yr ymgyngoreion (13) yn cytuno bod y canllawiau drafft yn cynnwys digon o fanylion i ategu'r dasg o greu cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Fodd bynnag, roedd saith o blith y 22 ymatebydd yn anghytuno.

11. Cyflwynwyd nifer o sylwadau defnyddiol a manwl ynglŷn â sut i wella'r canllawiau.

12. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod eglurder a symlrwydd yn bwysig, gan awgrymu bod defnyddio siart lif yn gwneud y broses yn haws ei deall.

13. Mae rhai o'r awgrymiadau a gyflwynwyd er mwyn gwella eglurder y canllawiau'n cynnwys:

- Nodi'n glir pwy all fod yn gysylltiedig â Chytundebau Partneriaeth Dreftadaeth a beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau dros oes y cytundeb;
- Cyflwyno costau dangosol, amserlenni a nifer y cyfarfodydd adolygu ar gyfer sefydlu gwahanol lefelau o gytundebau, er mwyn rheoli disgwyliadau, sicrhau cysondeb a helpu perchnogion i ddeall yr ymrwymiad o ran adnoddau;
- Cyflwyno canllawiau clir ynghylch pa ganiatadau y gall Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth eu darparu er mwyn osgoi tramgwyddo anfwriadol.

14. Soniodd un ymatebydd am hyd cytundebau partneriaeth dreftadaeth – roedd o'r farn y dylid eu hymestyn i hyd at 25 mlynedd er mwyn helpu i leihau'r gost o lunio cytundebau partneriaeth dreftadaeth a lleihau'r gwaith a oedd yn gysylltiedig â'u datblygu. Awgrymodd yr ymatebydd hwn y byddai hyn yn hwyluso mwy ar raglenni gwaith cymhleth ac yn darparu ar gyfer oedi.

15. Mae rhai o'r awgrymiadau a gafwyd wedi'u cynnwys yn barod yn y canllawiau, yn cynnwys:

- Dylai'r Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth ddarparu ar gyfer un ased neu gasgliad o asedau

- Dylai'r Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth nodi y dylid pennu caniatadau eraill – yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd, er enghraifft
- Gallai cwmpas Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth gynnwys gwaith i strwythurau cwrtil a thir o fewn cyffiniau henebion cofrestredig – gwaith na fyddai, o angenrheidrwydd, yn dod o fewn cylch gwaith presennol y corff caniatáu.

16. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y gallai'r canllawiau gynnwys dolenni gwell at ffynonellau cyngor a chanllawiau o fath arall, megis:

- Asesu arwyddocâd yr ased(au)
- Canllawiau ar safonau a dyddodi deunydd a chofnodi ffotograffig gyda'r sefydliadau perthnasol
- Cynlluniau cadwraeth

17. Cyflwynwyd awgrymiadau eraill yn ymwneud â'r ystyriaethau ehangach y gellid eu rhoi ar waith er mwyn gwella ansawdd Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth, yn cynnwys:

- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu hyfforddiant yn ymwneud â Chynlluniau Partneriaeth Dreftadaeth
- Dylid darparu canllawiau penodol yn ymwneud ag enwi asedau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol a phenodol am enwau adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn cael ei chynnwys yn y cytundebau ac er mwyn sicrhau y caiff yr enwau eu cofnodi ar y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

18. Mae'n bleser gan Lywodraeth Cymru nodi bod y canllawiau, ar y cyfan, yn ddigonol. Bydd y canllawiau'n cael eu diwygio er mwyn egluro nifer o'r materion a grybwyllwyd, yn cynnwys:

    - Rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n gysylltiedig â Chytundebau Partneriaeth Dreftadaeth
    - Pa mor bwysig yw gwneud cais am ganiatadau a thrwyddedau eraill
    - Sut i ddatblygu'r Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth er mwyn sicrhau bod y gwaith y rhoddwyd caniatâd iddo yn cael ei nodi'n glir
    - Y ffaith y dylid cofnodi a defnyddio enwau hanesyddol asedau dynodedig mewn Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth ac y dylid eu cynnwys yn y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol
    - Dolenni at ffynonellau perthnasol eraill yn ymwneud â chyngor technegol a chanllawiau ar arwyddocâd, cofnodi a rheoli adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig.

19. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y rheoliadau cysylltiedig yn cael eu diwygio fel y gellir ymestyn hyd Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth, yn amodol ar gytundeb yr holl bartïon a gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd perthnasol.

20. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio’n agos gyda’r rhai a fydd yn mabwysiadu Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yn gynnar fel y gellir darparu canllawiau ar gyfer defnyddwyr y dyfodol a chyfnewid arferion da a chyngor gyda nhw.

| | |
|---|---|
| **C2.** | Mae trefniadau’r ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi’u nodi yn:<br>• rheoliadau 5 i 7 a 9 o Reoliadau drafft Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021;<br>• rheoliadau 4 i 5 o Reoliadau drafft Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021;<br>• adran 4 o’r canllawiau drafft, cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru. A yw’r trefniadau hyn yn glir ac yn ddichonadwy?<br><br>Os na, sut y gellid eu gwella? |

| Ydyn | Nac ydyn | Sylw yn unig | Dim ymateb | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 15 | 5 | 0 | 2 | **22** |
| 68% | 23% | 0% | 9% | **100%** |

**Dadansoddiad cryno**

21. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (15) yn cytuno bod trefniadau’r ymgynghoriad a’r cyhoeddusrwydd arfaethedig ar gyfer Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yn glir ac yn ddichonadwy.

22. Gofynnodd un ymatebydd a oedd cyfnod ymgynghori o 21 diwrnod yn ddigon ar gyfer cytundeb a allai fod yn gymhleth, fel Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth.

23. Mae’r canllawiau’n nodi y dylai’r dogfennau fod ar gael yn ardal y safle, ond y gallant fod yn swyddfa’r Cyngor. Gofynnodd un ymatebydd am esboniad pellach o hyn, yn enwedig pan fo Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth yn ymdrin ag ardal fawr.

24. Mae’r canllawiau’n cyfeirio at anfon copïau llawn o’r Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth at breswylwyr hirdymor. Yn hytrach nag anfon copïau caled at breswylwyr hirdymor, gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd anfon hysbysiad a fyddai’n eu cyfeirio at y dogfennau ar-lein neu’n rhoi gwybod iddynt y gellid mynd i swyddfa’r Cyngor i’w gweld.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

25. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn fod y rheoliadau a’r canllawiau’n nodi’n glir y gellir ymestyn yr ymgynghoriad 21 diwrnod er mwyn cynnig amser i graffu ar

Gytundebau Partneriaeth Dreftadaeth mwy eu maint a mwy cymhleth eu natur. Fodd bynnag, diwygiwyd y canllawiau er mwyn sicrhau bod hyn yn glir. Ymhellach, diwygiwyd y canllawiau er mwyn esbonio ymhellach ble y dylid gosod hysbysiadau safle i hyrwyddo Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth.

26. Bydd y rheoliadau'n cael eu diwygio er mwyn galluogi awdurdodau caniatáu i anfon hysbysiadau ynglŷn â Chytundebau Partneriaeth Dreftadaeth neu amrywiad iddo at breswylwyr hirdymor, yn hytrach na chopïau llawn.

| | |
|---|---|
| **C3.** | Nid yw'n fwriad i fân newidiadau i gytundebau partneriaeth dreftadaeth ysgogi'r gofynion cyhoeddusrwydd ac ymgynghori a nodir yn:<br>• rheoliad 5 o Reoliadau drafft Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021<br>• rheoliad 4 o Reoliadau drafft Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021<br>Mae'r canllawiau drafft, cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru, yn ehangu ar y gofynion hyn ym mharagraff 3.10. Allwch chi ddarparu enghreifftiau o newidiadau y credwch y dylai cytundebau partneriaeth dreftadaeth allu eu caniatáu heb fod angen cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad llawn? |

**Dadansoddiad cryno**

27. Cynigiodd pymtheg o ymatebwyr enghreifftiau o newidiadau y dylai cytundebau partneriaeth dreftadaeth allu eu caniatáu heb fod angen cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad llawn, er mwyn sicrhau y bydd modd i gytundebau partneriaeth dreftadaeth fod yn hyblyg i ryw raddau a chaniatáu mân amrywiadau i fanylebau neu amodau heb fod angen cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad llawn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Mân newidiadau i gynllun modelau a deunyddiau, mân bethau a gaiff eu hychwanegu at y gwaith rhaglenedig neu eu gadael allan ohono, mân newidiadau i amserlenni ac amodau, a mân newidiadau i ddeunyddiau (er enghraifft, cynnwys set arall o ffenestri unwedd mewn cynllun amnewid, yn yr un arddull â'r ffenestri newydd y cytunwyd arnynt yn barod);
- Cynlluniau rheoli cadwraeth a chyfleoedd i gynyddu mynediad i'r cyhoedd
- Newidiadau ansylweddol, tebyg i geisiadau cynllunio
- Rhaid cael cydraddoldeb yn y rheoliadau rhwng henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, pan fydd asedau newydd yn cael eu cyflwyno neu pan fydd gwaith newydd yn effeithio ar arwyddocâd, pwysigrwydd cenedlaethol, neu ddiddordeb arbennig yr asedau
- Yn achos newidiadau nad ydynt angen caniatâd adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig, ni ddylai fod yn ofynnol ymgynghori ymhellach yn eu cylch
- Materion yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd
- Unrhyw waith sy'n ofynnol i gynnal a chadw elfennau bregus fel cyrsiau dŵr neu dirlunio

- Newidiadau mewn perchnogaeth dros y blynyddoedd, naill ai trwy werthu neu farwolaeth
- Tynnu seddi o gapel, neu ailwampio y tu mewn i adeilad er mwyn ei addasu ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain;

28. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys gofyniad mewn Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth i berchnogion gynnal a chadw a diogelu safleoedd treftadaeth mewn modd priodol, ac o'r herwydd y dylai fod yn ofynnol iddynt ymgynghori'n llawn ag awdurdodau lleol pe bai addasiadau neu waith atgyweirio'n cael eu cynnig. Fodd bynnag, cytunodd ymatebydd arall fod y gallu i wneud mân newidiadau trwy e-bost yn ddull da i'w roi ar waith ac y dylid cynnwys hyn yn benodol yn y rheoliadau perthynol.

29. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth gynnig cyfle i leihau biwrocratiaeth trwy benodi gweithiwr proffesiynol achrededig a allai fod yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth er mwyn lleihau'r angen i ymgynghori ymhellach ynghylch mân newidiadau.

30. Roedd un ymatebydd yn pryderu y gallai dirwyn Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth i ben beri problemau i gynlluniau mwy, lle mae adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a chynllunio'n gorgyffwrdd. Awgrymodd yr ymatebydd hwn drefn ragosodedig lle byddai'r adeilad/safle dan sylw yn cael ei ynysu ac efallai'n dychwelyd at ddull rheoli confensiynol.

**Ymatebion Llywodraeth Cymru**

31. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn am yr holl awgrymiadau a gyflwynwyd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer mân newidiadau mewn cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

32. Nid yw deddfwriaeth sylfaenol yn darparu trefn ar gyfer rhai o'r newidiadau eraill y gofynnwyd am eu cynnwys yn y rheoliadau Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth, fel newidiadau mewn perchnogaeth. Fodd bynnag, mae'r canllawiau wedi cael eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn nodi'n gliriach beth yw'r mân amrywiadau nad ydynt angen ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd. Ymhellach, mae'r canllawiau'n egluro y gall y Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth gynnwys trefniadau i ymdrin â mân newidiadau derbyniol i'r Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth gyda chytundeb y partïon perthnasol.

33. Ymhellach, diwygiwyd y canllawiau er mwyn egluro'r trefniadau y gellir eu cynnwys pan fydd unrhyw derfynu'n effeithio ar y cytundeb cyfan neu ar ran ohono.

| | |
|---|---|
| **C4.** | Mae adran 7 o'r canllawiau drafft, cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru, yn darparu templed ar gyfer cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Ydych chi'n credu y bydd y templed hwn yn ddefnyddiol?<br><br>Os na, sut y gellid ei wella? |

| Ydw | Nac ydw | Sylw yn unig | Dim ymateb | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 19 | 1 | 0 | 2 | **22** |
| 86% | 5% | 0% | 9% | **100%** |

**Dadansoddiad cryno**

34. Roedd mwyafrif yr ymgyngoreion (19) yn cytuno y byddai templed ar gyfer Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yn ddefnyddiol.

35. Cyflwynwyd rhai sylwadau defnyddiol, yn cynnwys awgrymiadau'n ymwneud â'r canlynol:

- Darparu enghraifft gam wrth gam o Gytundeb Partneriaeth Dreftadaeth wedi'i lenwi
- Cynnwys canllaw ar derminoleg benodol ac 'atebion enghreifftiol'
- Darparu ffurflen a fyddai'n sail i Gynlluniau Partneriaeth Dreftadaeth
- Cynnwys crynodeb gweithredol, yn cynnwys hierarchaeth rhanddeiliaid yn mapio rolau a lefelau ymwneud 'partïon eraill â budd' mewn perthynas â'r cytundeb
- Cynnwys cais cynllunio dan 'Gwaith' yn ogystal â chaniatâd adeilad rhestredig
- Egluro'r ddarpariaeth o ran taliadau grantiau
- Opsiynau rheoli integredig/cynaliadwy er mwyn ymwreiddio egwyddorion rheoli cyfannol ac er mwyn gweithredu fel prompt i wirio'r rhyngweithio ag ystyriaethau eraill
- Egluro a yw 'effaith' yn golygu 'asesiad o'r effaith ar dreftadaeth'.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

36. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai templed yn offeryn defnyddiol i helpu i sefydlu cytundeb partneriaeth dreftadaeth, ar gyfer yr awdurdod caniatáu a phartïon eraill.

37. Pan ofynnwyd am eglurder, aethpwyd ati i gyflwyno newidiadau i'r templed – er enghraifft, ychwanegwyd esboniad pellach o'r mathau o waith y gellir eu cynnwys mewn Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth. Cyflwynwyd newidiadau pellach i'r canllawiau, er enghraifft er mwyn egluro'r ddarpariaeth o ran taliadau

grantiau. Pan fo'n briodol, bydd y ddogfen derfynol yn cynnwys dolenni at ganllawiau manylach yn ymwneud â meysydd fel asesu effaith y gwaith.

38. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hon yn broses newydd ac y bydd y rhai sy'n mabwysiadau Cynlluniau Partneriaeth Dreftadaeth yn gynnar angen rhagor o gyngor a chanllawiau. Fodd bynnag, ni fydd modd mynd ati i lenwi cytundeb o'r fath a'i gynnwys fel enghraifft. Mae natur y cytundebau'n golygu y byddant yn cynnwys amrywiaeth eang o adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig - adeiladau a henebion a fydd angen gwaith gwahanol iawn a chaniatâd gwahanol iawn i'w gilydd. Trwy weithio'n agos gyda'r rhai a fydd yn mabwysiadu'r cynlluniau'n gynnar, bydd modd i Lywodraeth Cymru gyfnewid arferion da a chyngor gyda chyfranogwyr y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **C5.** | Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn atodiad CH yn dadansoddi costau a buddion y rheoliadau cytundebau partneriaeth dreftadaeth arfaethedig. Oes gennych chi wybodaeth neu dystiolaeth arall y byddai'n ddefnyddiol i'w hychwanegu at yr asesiad hwn? |

**Dadansoddiad cryno**

39. Cyflwynodd naw ymatebydd sylwadau ynglŷn â'r cwestiwn hwn ac roedd dau yn cefnogi opsiwn 4. Roeddynt yn cytuno gyda'r cyfleoedd mae Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yn eu cynnig ar gyfer dull mwy hyblyg o reoli asedau hanesyddol – dull a fyddai'n arwain at allu cwblhau tasgau mynych mewn modd mwy effeithlon. Roedd ymatebwyr eraill yn croesawu'r cyfle i gael partneriaethau gweithio agosach i ategu strwythurau sydd eisoes yn bodoli.

40. Un pryder a grybwyllwyd gan sawl ymatebydd oedd yr effaith a gaiff datblygu Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth ar awdurdodau cynllunio lleol. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu bod yr asesiad effaith yn tanddatgan y gost o weinyddu'r system bresennol; roeddynt yn pryderu y bydd y gwaith sydd ei angen i ddatblygu Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth yn sylweddol ac na fydd yr arbedion cost y gellid eu gwrthbwyso trwy leihau nifer y ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig yn sylweddol iawn yn ymarferol. Hefyd, roedd yna bryder mwy cyffredinol ynglŷn â lefelau gallu a sgiliau awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai hyn arwain at amharodrwydd i'w sefydlu.

41. Ailadroddodd ymatebydd arall yr angen i ystyried y strwythurau hanesyddol hynny sy'n bwysig, ond nad oes ganddynt unrhyw 'ddefnydd posibl', fel Clawdd Offa neu Furiau Tref Penfro, lle gallai'r hafaliadau costau / buddion simsanu.

42. Roedd sylwadau cyffredinol eraill a gafwyd ynghylch asesiadau effaith yn tynnu sylw at yr angen i'r asesiadau hyn fod yn gymesur, a mynegwyd pryder y bydd effaith Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth, yn anochel, yn fach gan nad ydynt yn ymdrin â'r problemau a welir yn y systemau caniatâd treftadaeth presennol. Er y gall peth mantais o ran cost fod yn perthyn i ddatblygu Cynlluniau Partneriaeth Dreftadaeth, ailadroddodd ymatebydd arall y dylid cynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

43. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am y sylwadau manwl a gafwyd ynglŷn â'r asesiad effaith rheoleiddiol. Bydd yr asesiad effaith yn cael ei ddiwygio er mwyn ystyried rhai o'r pwyntiau a gyflwynwyd yn yr ymatebion.

44. Wrth i Gytundebau Partneriaeth Dreftadaeth gael eu datblygu, bydd eu heffaith yn cael ei monitro a'i hasesu er mwyn mesur pa mor effeithiol yw'r cytundebau, ac er mwyn pennu unrhyw welliannau y gellir eu cyflwyno er budd awdurdodau caniatáu, perchnogion a'r cymunedau ehangach.

| | |
|---|---|
| **C6.** | Mae'r asesiad effaith integredig drafft yn atodiad D yn ystyried effaith y rheoliadau cytundebau partneriaeth dreftadaeth arfaethedig mewn nifer o feysydd. Oes gennych chi wybodaeth neu dystiolaeth arall a fyddai'n ddefnyddiol i'w hychwanegu at yr asesiad hwn? |

**Dadansoddiad cryno**

45. Cyflwynodd saith o ymatebwyr wybodaeth bellach yn yr adran hon, yn cynnwys:

- Cytuno ei bod hi'n briodol i effaith y Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth arfaethedig gael ei hasesu ar sail y dangosyddion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn ategu'r arfer o reoli amgylchedd hanesyddol a naturiol Cymru yn gynaliadwy, hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd a diogelu diwylliant a threftadaeth er budd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol
- Cytuno y dylid cydnabod y budd cyhoeddus sy'n perthyn i dreftadaeth a gaiff ei chynnal a'i chadw'n dda yn ogystal â'r potensial i leihau'r gost weinyddol a'r gost o ran amser i berchnogion ac awdurdodau cynllunio lleol
- Efallai y bydd yn briodol i Cadw ddadansoddi'r effaith sydd ynghlwm wrth ddefnyddio Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth, ar gyfer ei safleoedd ei hun ac ar gyfer henebion sydd mewn gofal.

46. Nododd un ymatebydd nad oedd 'treftadaeth a gaiff ei herio' wedi'i chynnwys, a dywedodd fod gwrthdystiadau a gynhaliwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi tynnu sylw at yr angen i feddwl am agweddau ar ein cyd-orffennol a pha un a ddylid ailystyried rhai coffadwriaethau ffisegol (e.e. cerfluniau o berchnogion caethweision).

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

47. Pleser i Lywodraeth Cymru yw nodi'r ymateb cadarnhaol a gafwyd i'r asesiad effaith integredig a bod Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth yn ffordd ddefnyddiol o fonitro'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

48. Nid yw 'treftadaeth a gaiff ei herio' yn rhan o gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn na Chytundebau Partneriaeth Dreftadaeth, ond mae'r Prif Weinidog a'r Pwyllgor

Diwylliant, y Gymraeg a Chymunedau wedi delio â hyn ar wahân yn eu priod adroddiadau.

| | |
|---|---|
| **CA.** | Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisïau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>Hoffem wybod eich barn am yr effaith fyddai'r cynigion yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.<br><br>Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol? |

**Dadansoddiad cryno**

49. Cyflwynodd tri ar ddeg o'r ymgyngoreion ymatebion yn yr adran hon. Ymdrinnir â rhai o'r materion a godwyd, fel pwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg, mewn mannau eraill yn yr adroddiad. Rydym yn ddiolchgar i Gomisiynydd y Gymraeg am yr ymateb manwl ynglŷn â'r mater hwn ac am yr awgrymiadau ynghylch sut gellir cynnwys enwau lleoedd mewn Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth.

50. Mae'r sylwadau eraill a gyflwynwyd ynglŷn â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynnwys:

- Sicrhau bod y canllawiau a'r ardystio'n ddwyieithog
- Cydnabod y ddyletswydd sydd gan gyrff cyhoeddus o ran deddfwriaeth y Gymraeg
- Cydnabod bod dwyieithrwydd a hybu defnydd o'r Gymraeg yn elfennau cadarnhaol ac angenrheidiol
- Cydnabod bod y Gymraeg cyn bwysiced â'r adeiladau o ran diogelu treftadaeth, ac y dylai unrhyw awdurdod sy'n delio â'r partneriaethau allu trafod trwy gyfrwng y Gymraeg
- Pan fo mudiadau gwirfoddol yn gysylltiedig â'r broses fel trydydd partïon, gallai Llywodraeth Cymru ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar eu cyfer i ddrafftio dogfennau ac ati yn ddwyieithog
- Cynnwys testun cyffredinol yn sôn am bwysigrwydd enwau lleoedd
- Cydnabod y dylai'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn ffordd gadarnhaol ac y dylid annog a chynorthwyo perchnogion i wneud hynny.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

51. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi'r Gymraeg. Mae gan y Gymraeg statws swyddogol ac mae deddfwriaeth ar waith sy'n rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

52. Trwy gyfrwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol sy'n ymdrin â Chymru gyfan weithio tuag at y saith nod llesiant. Un o'r nodau hyn yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r

Gymraeg yn ffynnu'. Ymhellach, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i hybu a hwyluso'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at y nodau llesiant. Dylid datblygu Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth gyda hyn mewn cof.

| | |
|---|---|
| **CB.** | Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y cynigion fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, ac fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

**Dadansoddiad cryno**

53. Cyflwynodd pump o ymatebwyr wybodaeth yn yr adran hon. Ymdrinnir â rhai o'r materion a godwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys cyfeirio at y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol, darparu ffurflenni a chytundebau dwyieithog a diwallu anghenion y rhai sy'n dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg.

54. Awgrymodd un ymatebydd y dylai canolfannau gwledig mewn cymunedau Cymreig gael cyfle i addasu ar gyfer y dyfodol heb orfod poeni am rwystrau ariannol. Gall y gofynion sy'n gysylltiedig ag adeiladau rhestredig, fel deunyddiau arbennig, fod yn faich ariannol na ellir cwrdd ag ef, ac o ganlyniad caiff hyn effaith negyddol ar y Gymraeg. Mae hi'n hanfodol i'r bartneriaeth gynnwys siaradwyr Cymraeg sy'n deall yr heriau, ac mae'r bwriad y bydd partneriaethau'n gweithio gyda'i gilydd dros nifer o flynyddoedd yn syniad rhagorol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

55. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r holl gyfraniadau a wnaed wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol yn dod i ran pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg ac na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

56. Mae Llywodraeth Cymru yn annog y rhai sy'n rhan o Gytundeb Partneriaeth Dreftadaeth nid yn unig i fodloni unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol, ond i ragori arnynt pa bryd bynnag y bo modd, yn ogystal â mynd ati yn yr hirdymor i ddiogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol sy'n destun i Gytundebau Partneriaeth Dreftadaeth.

| | |
|---|---|
| **CC.** | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt. |

**Dadansoddiad cryno**

57. Manteisiodd tri ar ddeg o ymatebwyr ar y cyfle i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn yr adran hon.

58. Deilliodd sawl thema o'r ymatebion. Ymdrinnir â rhai o'r themâu hyn mewn mannau eraill yn yr adroddiad cryno hwn. Roedd y materion ychwanegol a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Gallai effaith y coronafeirws ar gyllidebau a gwariant arwain at her o ran sefydlu a rheoli cytundebau.
- Dylid ystyried gofynion yn ymwneud ag ymaddasu i newid hinsawdd yn y dyfodol.
- Dylid ystyried natur yr adeilad rhestredig neu'r heneb gofrestredig, yn enwedig adeiladau, strwythurau a henebion sydd wedi'u cynnwys mewn cofrestri risgiau.
- Sut bydd Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yn adlewyrchu eglwysi rhestredig, y broses hawlebau ac eithriadau eglwysig
- Dylid diwygio rheoliadau i gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ochr yn ochr ag awdurdod lleol
- A fydd hi'n ofynnol i bob adeilad rhestredig a heneb gofrestredig yng Nghymru gael Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth.

59. Gofynnwyd am gael eglurhad pellach ynglŷn â'r canlynol:

- Y diffiniad o waith 'tebyg am debyg'
- Trefniadau monitro
- Y sail dros derfynu
- Sut mae mesurau gorfodi a chydymffurfio yn berthnasol i Gytundebau Partneriaeth Dreftadaeth
- Sut gellir darparu ar gyfer atyniadau i dwristiaid a gofynion perthynol, fel meysydd parcio, llwybrau beicio, arwyddion, gwasanaethau bysiau ac ati, mewn Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth
- A ddylid adneuo Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth gyda Chofnodion Amgylchedd Hanesyddol
- Y diffiniad o 'ddymchwel'
- Beth mae 'rhy gymhleth' yn ei olygu a phwy fydd yn gwneud penderfyniad ynglŷn â hyn

60. Cynigiodd un sefydliad treftadaeth dreialu'r Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth ar ei eiddo, sy'n cynnwys nifer o strwythurau adeilad rhestredig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

61. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am yr holl sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar reoliadau, canllawiau a dogfennau cysylltiedig.

62. Pan fo hynny’n briodol, newidiwyd y canllawiau er mwyn adlewyrchu meysydd lle mae angen mwy o eglurder. Er enghraifft, trefniadau monitro a sut mae mesurau gorfodi’n berthnasol i Gytundebau Partneriaeth Dreftadaeth.

63. Mae natur gydweithredol Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yn golygu na ellir cynnwys yr holl bosibiliadau yn y rheoliadau na’r canllawiau. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau henebion cofrestredig wedi'u diwygio i gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ochr yn ochr ag awdurdodau lleol. Mae cwmpas y rheoliadau’n gyfyngedig, ond ymhelaethwyd ar y canllawiau er mwyn sicrhau bod gan awdurdodau caniatáu a phartïon eraill y sail i lunio cytundeb sy’n briodol i anghenion yr asedau hanesyddol dan sylw. Ni fu modd manylu ynghylch pob agwedd, yn enwedig pan fo dogfennau canllawiau technegol neu ddogfennau canllawiau arferion gorau eisoes yn ymdrin â’r agweddau hyn. Cyfeirir at y ffynonellau hyn pan fônt yn berthnasol.

# Atodiad 1 – Rhestr o'r ymatebwyr

Mae pob cofnod yn nodi rhif yr ymateb, enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ymatebodd (oni bai y gofynnwyd am anhysbysrwydd) a lleoliad yr ymatebydd (os gwyddys y lleoliad).

| Rhif | Enw | Lleoliad |
|---|---|---|
| 001 | Matthew Camilleri | Ni wyddys y lleoliad |
| 002 | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent | Cymru |
| 003 | Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro | Cymru |
| 004 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Cymru |
| 005 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cymru |
| 006 | Dienw | Cymru |
| 007 | Cyfeillion Cwmni Gwaith Haearn Abaty Nedd | Cymru |
| 008 | Yr Eglwys yng Nghymru | Cymru |
| 009 | Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru | Cymru |
| 010 | Julian Selman | Ni wyddys y lleoliad |
| 011 | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed | Cymru |
| 012 | Comisiynydd y Gymraeg | Cymru |
| 013 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cymru |
| 014 | Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol | Cymru |
| 015 | Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru | Cymru |
| 016 | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol | Cymru |
| 017 | Dienw | Cymru |
| 018 | Yr Ymddiriedolaeth Theatrau | Y Deyrnas Unedig |
| 019 | CLA Cymru | Cymru |
| 020 | Historic Houses | Y Deyrnas Unedig |
| 021 | Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr a'r Cyngor Archaeoleg Brydeinig | Y Deyrnas Unedig |
| 022 | Cyngor Sir Fynwy | Cymru |